

## Grŵp Cyswllt Prosiect (GCP) Adeiladu Wylfa Newydd

### COFNODION

Cofnodion Grŵp Cyswllt Prosiect Adeiladu Wylfa Newydd a gynhaliwyd ddydd Iau 12<sup>fed</sup> Rhagfyr 2013 am 5:00pm yn Swyddfa Wylfa Horizon.

#### Yn bresennol (yn nhrefn yr wyddor yn ôl sefydliad):

Enw cyntaf	Cyfenw	Sefydliad
John Idris	Jones	Rhaglen Ynys Ynni Ynys Môn
John	Burnell	Burnell's
Gwynne	Morris Jones	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Gwilym	Williams	Clough & Co
Wyn	Thomas	Coleg Menai
Eric	Torr	Cwmni Cemaes Cyf
Joan	Hopkins	Dafydd Rowlands
Damian	Hamilton	Yr Adran Gwaith a Phensiynau
Alan	McGoff	Asiantaeth yr Amgylchedd
Ieuan	Williams	Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn
Elfed	Jones	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Dafydd	Griffiths	Cyngor Cymuned Llanelian
Bleddyn	Rowlands	Cyngor Cymuned Llanfachraeth
John	Arfon Jones	Cyngor Cymuned Llanfaethlu
Peter	Jones	Cyngor Cymuned Llanfaethlu
Steve	Roberts	Aelod o'r Cyhoedd
Derek	Gadson	Aelod o'r Cyhoedd
Patricia	Gadson	Aelod o'r Cyhoedd
Jac	Jones	Is-gadeirydd PLG / Menter Mechell / Carrog Renewables
Anne	Jones	Morgan Evans & Co LTD

Simon	Jones	Morgan Evans & Co LTD
Iwan	Williams	Cyfoeth Naturiol Cymru
Will	Edwards	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU)
Geraint	Hughes	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Dave	Walden	Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear
Sarah	Andrews	Iechyd Cyhoeddus Cymru
John	Llwelyn Jones	RICS
Kenneth P	Hughes	Ward Talybolion
John	Griffith	Ward Talybolion
William Thomas	Hughes	Ward Twrcelyn
Tony	Owen	Cwmni Gwerthu Tai W Owen
Angela	Meadows	Dŵr Cymru
Tom	Conway	Cymdeithas Gweithwyr wedi Ymddeol Wylfa
Karen	Garrod	Canolfan Cyngor ar Bopeth Ynys Môn
Aaron	Bayley	Ysgol Syr Thomas Jones
Jean	Jones	Ysgol Syr Thomas Jones
Nicholas	Andrew	Ysgol Syr Thomas Jones
Jessica	Andrew	Ysgol Syr Thomas Jones
Irfon	Morris	Ysgol Uwchradd Bodedern
Geraint	Llŷn	Ysgol Uwchradd David Hughes

### Ymddiheuriadau

Enw cyntaf	Cyfenw	Sefydliad
Val	Roberts	Cyngor Tref Amlwch
Barbara	Avery	Sefydliad y Merched Ynys Môn

David	Shepherd	Prifysgol Bangor
Richard Parry	Jones	Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn
Stephen	Lindoe	Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
Tim	Jones	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Helen	George	Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
Carys	Edwards	Pennaeth AD Cyngor Ynys Môn
Enid	Williams	Gwasanaeth Ieuenctid Ynys Môn
Anthony	Hughes	Cyngor Cymuned Llanbadrig
John	Jukes	Cyngor Cymuned Llannerch-y-medd
Rhun	ap Iorwerth	Aelod Lleol Cynulliad Cymru
Albert	Owen AS	Aelod Seneddol
Mel	O'Hara	Aelod o'r Cyhoedd
Michael	Dodds	Aelod o'r Cyhoedd
Frances	Cattanach	Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gogledd Cymru
Linda	Jones	Cynrychiolydd o'r Rhaglen Ynys Ynni
Cheryl	Whitaker	Cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru (Gogledd Cymru)
Llinos Medi	Huws	Ward Talybolion
Aled	Roberts	Anabledd Taran
John	Chamberlain	Cymdeithas Amaethyddol Môn / Clwb Rotari Caergybi
Andrew	Forfar	Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru
Aled Morris	Jones	Ward Twrcelyn
Richard Owain	Jones	Ward Twrcelyn
Jackie	Blackwell	Canolfan Cyngor ar Bopeth Ynys Môn
Emyr	Williams	Ysgol Uwchradd David Hughes

Os nad yw'ch enw ar y rhestr oherwydd camgymeriad neu os yw wedi ei nodi'n anghywir, cysylltwch â Horizon ar 0800 954 9516 neu [ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com](mailto:ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com).

### **Gair o Groeso gan y Cadeirydd**

- Estynnodd y Cadeirydd, Dennis Evans (DE), groeso i bawb i'r cyfarfod. Dywedodd fod bron i dair blynedd wedi mynd heibio ers y cyfarfod cyntaf, a bod llawer wedi digwydd yn ystod y cyfnod hwnnw.

### **Ymddiheuriadau a chofnodion y cyfarfod diwethaf**

- Derbyniwyd ymddiheuriadau. Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod blaenorol y GCP ar 17.4.13 yn gofnod manwl gywir o'r digwyddiadau, a chawsant eu cymeradwyo gan yr aelodau.

### **Y newyddion diweddaraf am y prosiect a datblygu'r safle – Charlie Tasker, Cyfarwyddwr Datblygu'r Safle**

- Diolchodd Charlie Tasker (CT) i bawb am ddod i'r cyfarfod a dywedodd ei bod wedi bod yn 'flwyddyn brysur' i Horizon, ac yn 'flwyddyn gadarnhaol' gyda 'llawer o gefnogaeth gan y gymuned leol' ac roedd yn gwerthfawrogi hynny. Roedd yn croesawu unrhyw adborth, ac yn annog cyfathrebu cyson.
- Dywedodd fod astudiaethau amgylcheddol pwysig wedi bod yn cael eu cynnal yn Wylfa ac ar yr A5205 er mwyn cael digon o wybodaeth am gyfyngiadau amgylcheddol. Dywedodd y byddai'r astudiaethau'n parhau am 12-18 mis nes bod Horizon yn fodlon bod ganddo ddigon o wybodaeth ar gyfer yr asesiadau amgylcheddol, sy'n rhan o'r broses gynllunio.
- Roedd Horizon wedi sylwi bod nifer fawr o goed marw yn y safle, a gallent achosi risg iechyd a diogelwch. Eglurodd y byddai Horizon yn mynd ati i reoli hyn gyda rhaglen cwmpo coed, ac mae'n bwriadu rhoi'r pren yn rhodd i'r gymuned leol. Byddai modd defnyddio'r pren ar gyfer camau lliniaru amgylcheddol hefyd, fel adeiladu Ysguboriau Ystlumod.
- Dywedodd CT fod Horizon wedi cynnal profion dirgryniadau (a gwblhawyd ym mis Rhagfyr). Defnyddiwyd dyfeisiau ffrwydro bach i fesur dirgryniadau ac amodau'r tir.
- Yn amodol ar gael y gymeradwyaeth angenrheidiol, mae Horizon yn bwriadu defnyddio UKABWR (Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch). Mae Horizon a Hitachi-GE yn gweithio ar gynlluniau manwl ar gyfer cynllun y safle.
- Dywedodd CT ei bod yn debygol y byddai Horizon yn gweithio gyda Chontract Fframwaith pedair haen.
- Cadarnhaodd CT fod y penderfyniad ynghylch cynllun dwy uned wedi'i gyhoeddi fis Tachwedd yn ystod digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid a drefnwyd gan Horizon yn Nhraeth Coch. Bydd safle Wylfa Newydd yn cynhyrchu o leiaf 2,700 MW.
- Cadarnhaodd CT fod y broses Asesu Dyluniadau Generig (GDA) yn mynd rhagddi ar hyn o bryd yn y DU, ac y bydd tîm Horizon yn cefnogi'r gwaith hwn ochr yn ochr â Hitachi-GE. Cymerwyd y camau cyntaf yn 2013, a chafodd y cytundeb ei lofnodi ym mis Mawrth.

Ychwanegodd y bydd Cam 2 y broses gyflwyno yn cael ei gynnal yn gynnar yn 2014. Mae'n siŵr y bydd y dyddiad targed ar gyfer cwblhau rywbryd yn 2017.

- Dywedodd fod Horizon yn dal i gael cefnogaeth wleidyddol ar bob lefel – Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol. Mae Hitachi, Horizon a Thrysorlys EM wedi llofnodi cytundeb cydweithredu, fel rhan o Gynllun Seilwaith y DU sy'n ceisio denu buddsoddiadau a chyllid allanol wedi'u gwarantu gan y Llywodraeth. Mae'r Llywodraeth a phrosiect Hinkley Point C wedi cytuno ar 'bris taro', ac mae hynny'n dangos ymrwymiad hirdymor y Llywodraeth i gynhyrchu ynni niwclear.
- Mae digwyddiadau cadwyn gyflenwi wedi cael eu cynnal yn Llandudno ac yng Nghaerloyw, a daeth bron i 500 o bobl i'r ddau ddigwyddiad hyn.
- Mae Horizon eisoes wedi dyfarnu dros 52 o gontractau ar draws Ynys Môn a Gogledd Cymru. Y gobaith yw y bydd 60% o werth yr adweithydd cyntaf yn mynd i gwmnïau yn y DU. Mae Horizon yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru o ran yr ymrwymiad hwn gan Hitachi.
- O ran addysg a sgiliau, dywedodd CT fod Horizon yn rhoi cefnogaeth ymarferol i gwrs hyfforddiant prentisiaeth peirianeg yng Ngholeg Menai – 'Cwmni Prentis Menai' – ac mae wedi buddsoddi £270,000 yn y cynllun hyd yma.
- Mae gan Horizon gynlluniau i benodi Swyddog Addysg yn 2014, a fydd yn gweithio yn Wylfa. Mae hefyd yn awyddus i benodi dau o raddedigion o Ynys Môn – 1 rhan-amser yn Wylfa/Caerloyw, a'r llall yn llawn amser yng Nghaerloyw – gyda'r bwriad y bydd modd i'r gweithiwr symud yn ôl i Ynys Môn yn y dyfodol.
- Cynhaliwyd digwyddiad lansio gyda rhanddeiliaid lleol yn The Tavern, Traeth Coch, i gyhoeddi'r enw newydd – Wylfa Newydd. Hefyd, roedd y digwyddiad hwn yn gyfle i gyhoeddi polisi laith Gymraeg newydd Horizon yn swyddogol, ac i gyhoeddi cymorth nawdd i Menter Môn.
- Mae'r Cymorthfeydd Agored yng Nghemaes a Llangefni yn dal i ddenu llawer o bobl, ac unwaith eto roedd gan Horizon babell yn Sioe Môn, a oedd yn boblogaidd iawn.
- Bydd cyfnod cyntaf yr ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar gynlluniau Horizon yn cael ei gynnal yn 2014. Mae llawer o waith paratoi yn cael ei wneud ar hyn o bryd, gyda llawer o gydweithio â'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd, Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ynys Môn / Ynys Ynni. Dywedodd hefyd fod Horizon yn gobeithio recriwtio llawer mwy o weithwyr yn ystod 2014, ac y byddai gweithlu Horizon yn cynyddu'n sylweddol dros y flwyddyn.
- Cafwyd darlun cyffredinol o gerrig milltir y prosiect gan CT, gan gynnwys trwyddedu, cydsynio a dylunio'r safle. Bydd pwyslais o hyd ar ymgysylltu â'r gymuned ac ymgynghori â'r cyhoedd ar bob agwedd ar y prosiect – o lety'r gweithwyr i wasanaethau parcio a theithio a gwella'r A5025.

- Pwysleisiodd CT hefyd fod Horizon wedi lansio’i Bolisi Iaith Gymraeg yn ddiweddar, sy’n dangos ymrwymiad hirdymor y cwmni i warchod yr iaith Gymraeg ac i gynyddu’r defnydd ohoni. Mae cymorth ar gael i weithwyr Horizon sy’n dymuno dysgu Cymraeg, a dywedodd CT fod nifer o’i gydweithwyr yn manteisio ar y cyfle hwn.

### Holi ac Ateb

- Diolchodd Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn, y Cynghorydd Ieuan Williams, i Horizon am barhau i gyfathrebu’n dda â’r cyngor, y gymuned a sefydliadau eraill. Gyda phrosiectau mawr, fel Wylfa Newydd, mae’n credu mai ‘gorau i gyd po fwyaf o gyfathrebu sydd’.
- Gofynnodd Tom Conway (TC) a oedd y penderfyniad a wnaeth Horizon yn ddiweddar i gynnig dwy uned adweithydd i Wylfa Newydd yn seiliedig ar gyfyngiadau'r Grid Cenedlaethol / rhwydwaith trawsyrru. Gofynnodd hefyd a oedd y ‘budd cenedlaethol’ wedi cael ei ystyried, gan fod gwir angen pŵer ar y wlad ac mae llawer yn poeni na fydd trydan ar gael.
  - Cadarnhaodd CT fod y budd cenedlaethol yn ystyriaeth allweddol bob amser, ond bod y cynnig dwy uned yn cael ei ffafrio oherwydd ystyriaethau'n ymwneud â dylunio, gallu i gyflawni a'r cynllun.
- Soniodd y Cynghorydd John Griffiths (JG) pa mor bwysig yw creu swyddi i bobl leol a chyfleoedd i fusnesau lleol. Hefyd, gofynnodd Dr John Idris Jones (JIJ) faint o ymdrech a wneir i ddenu arbenigwyr lleol, sy’n gweithio dramor ar hyn o bryd, yn ôl i Ynys Môn. Holodd am hysbysebu swyddi ar lefel leol a chenedlaethol, a gofynnodd a yw Horizon yn trefnu rhaglen gyfathrebu i hybu hyn. Dywedodd fod nifer o weithwyr proffesiynol a adawodd yr ardal er mwyn chwilio am waith, ac sydd bellach yn eu 40au ac yn arbenigwyr yn eu maes, yn awyddus i ddychwelyd i Ynys Môn. Sut mae’r bobl hyn yn cael eu targedu?
  - Cadarnhaodd CT fod swydd Swyddog Addysg newydd wedi cael ei chreu yn Horizon, a bydd Horizon yn recriwtio yn 2014. Dywedodd fod Horizon yn gweithio’n galed â’r gadwyn gyflenwi i ymgysylltu â chontractwyr lleol, a chynhaliwyd digwyddiad cadwyn gyflenwi mawr yn Llandudno y llynedd er mwyn rhoi sylw i’r cyfleoedd sydd ar gael. Mae’r ymgyrch recriwtio’n mynd o nerth i nerth ac mae Horizon yn gweithio gyda sefydliadau, gan gynnwys Cyngor Sir Ynys Môn / Ynys Ynni, i sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosib i fusnesau a phobl leol. Ni chafwyd llawer o ymateb yn lleol i’r hysbysebion recriwtio ar gyfer uwch swyddi peirianeg, ond mae strategaethau ar waith i dargedu’r genhedlaeth o weithwyr proffesiynol y gwnaeth JIJ sôn amdanyn nhw.
- Holodd y Cynghorydd John Griffiths hefyd am gynlluniau Horizon ar gyfer llety’r gweithwyr.
  - Dywedodd CT fod nifer o gyfleoedd a syniadau yn cael eu hystyried – gan gynnwys datblygiad Land & Lakes. Y disgwyliad yw y bydd angen nifer o opsiynau. Bydd rhai gweithwyr eisoes yn byw yn lleol, bydd rhai’n gallu

manteisio ar y cyfleusterau llety sy'n bodoli'n barod ar yr ynys, a bydd rhai angen cyfleusterau pwrpasol.

- Soniodd Will Edwards am y sibrydion bod Horizon wedi prynu hen Fferm Tanciau Olew Shell yn Rhos-goch. Petai hynny'n wir, byddai'n newyddion da i Ros-goch gan fod y safle mewn cyflwr gwarthus.
  - Wrth ymateb, cadarnhawyd nad yw Horizon yn bwriadu defnyddio'r safle – ond roedd wedi cael ei asesu. Cadarnhaodd y Cynghorydd Ieuan Williams fod DTZ yn marchnata'r eiddo, ond nad oedd unrhyw gynigion wedi dod i law hyd yma.
- Dywedodd Jac Jones ei fod yn croesawu penodi Swyddog Addysg, ac roedd yn croesawu'r ymdrech i gydweithio ag arweinwyr ysgolion. Pwysleisiodd y Cadeirydd fod y prosiect hwn yn brosiect i'n plant, a'i bod yn hollbwysig bod cynrychiolwyr pobl ifanc yn mynychu'r cyfarfodydd GCP hyn.
  - Roedd Irfon Morris (Ysgol Uwchradd Bodedern) yn cytuno, a diolchodd i Horizon am yr ymdrech i gydweithio â'i ysgol hyd yma. Dywedodd fod y disgyblion eisoes yn dechrau deall y cyfleoedd posib a fydd yn cael eu creu gan y prosiect Wylfa Newydd.

### **Cyflwyniad i'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear – Dave Walden, y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear**

- Cafodd y grŵp gyflwyniad i'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear gan Dave Walden (DW), Arolygydd prosiect yn y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR), sy'n cydlynu cyfrifoldebau rheoleiddio'r ONR. Cafwyd golwg gyffredinol ar rôl yr ONR a'r gwaith presennol ar y prosiect Wylfa Newydd.
- Eglurodd DW fod yr ONR yn annibynnol ar y diwydiant niwclear, ac yn atebol i Lywodraeth EM. Ei nod yw rheoleiddio'r diwydiant niwclear yn effeithlon ac yn effeithiol.
- Mae angen bod yn fanwl ar hyd bob cam o'r ffordd. Mae angen i sefydliadau fel Horizon, sydd am wneud gweithgareddau niwclear, wneud cais am drwydded safle niwclear (NSL) a chael y drwydded honno. Mae'n disgwyl y bydd Horizon yn weithredwr cymwys.
- Mae gan yr ONR ddyletswydd i sicrhau bod ei brosesau a'i benderfyniadau rheoleiddio yn agored ac yn gadarn. Mae EDF wedi bod yn dilyn proses gadarn debyg ar gyfer ei brosiect Hinkley Point dros y pedair blynedd diwethaf. Mae adroddiadau am bob asesiad a'r penderfyniadau terfynol i roi trwyddedau i'w gweld ar wefannau'r ONR ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae gwybodaeth fanwl am rôl a gweithgareddau'r ONR ar gael ar ei wefan: <http://www.hse.gov.uk/nuclear/index.htm> Gall pobl gofrestru ar y wefan a chael negeseuon e-bost misol.
- Mae gan yr ONR ran flaenllaw yn y broses yn barod, hyd yn oed yn ystod y camau cynnar hyn. Bydd yr ONR yn gweithio gyda Horizon yn ystod y cam cyn ymgeisio, felly pan ddaw'n

adeg gwneud cais am drwydded gall yr ONR fod yn sicr bod y sylfeini priodol yn eu lle. Mae'r broses honno wedi dechrau.

- Mae'r broses o gael y cais, gwneud penderfyniad a rhoi trwydded yn cymryd tua dwy flynedd – ond mae hyn yn aml yn dibynnu ar faint o gydweithio a gwaith sylfaenol a wnaed rhwng y ddau sefydliad ymlaen llaw.

### **Rôl Cyfoeth Naturiol Cymru – Iwan Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru**

- Rhoddodd Iwan Williams (IW), Rheolwr Rhaglen Ynys Ynni, Cyfoeth Naturiol Cymru, gyflwyniad am rôl Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Mae IW wedi bod yn gweithio ar y rhaglen Ynys Ynni ers dwy flynedd, ond mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad eithaf newydd (sefydlwyd ar 1 Ebrill 2013). Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dod â gwaith Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru at ei gilydd, yn ogystal â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru. Ei nod yw sicrhau bod adnoddau Cymru yn cael eu cynnal, eu defnyddio a'u gwella mewn modd cynaliadwy.
- Mae adnoddau dŵr, coedwigoedd, gorsafoedd pŵer niwclear, safleoedd diwydiannol a safleoedd gwastraff i gyd yn enghreifftiau o'r pethau sy'n cael eu rheoleiddio gan Cyfoeth Naturiol Cymru, wrth amddiffyn cymunedau lleol a'r amgylchedd.
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli llawer o dir yng Nghymru – 7% o'r tir a dros 300,000 o erwau o goetiroedd. Mae'n cynnal bron i 2,000 o filltiroedd o amddiffynfeydd rhag llifogydd a phrif afonydd, gan leihau'r perygl o lifogydd i dros 60,000 o gartrefi. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn darparu adnoddau hamdden – 500km o lwybrau beicio mynydd, a 450km o safleoedd cerdded.
- Dyma rai o brif gyfrifoldebau Cyfoeth Naturiol Cymru o ran Wylfa Newydd:
  - Gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i Asesu Dyluniadau Generig UKBWR
  - Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol
  - Trwyddedu Morol
  - Ymgynghorai Cynllunio – gweithio gyda sefydliadau cynllunio i sicrhau bod yr asesiadau priodol yn cael eu cynnal
  - Rhoi cyngor ac arweiniad i'r datblygwr – gweithio'n agos gyda'r datblygwr i sicrhau ceisiadau o'r ansawdd uchaf
  - Gweithio gyda phartneriaid rheoleiddio h.y. y cyngor sir
  - Ymgysylltu â rhanddeiliaid – mae hyn yn bwysig iawn, ac mae angen ymgysylltu'n rheolaidd â'r bobl sy'n byw yng nghyffiniau'r safleoedd arfaethedig
- Dyma dîm Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y rhaglen Ynys Ynni: Iwan Williams, Rheolwr Rhaglen, Nia Jeffreys, Arweinydd Cyfathrebu a Rhanddeiliaid, Anita Jones, Swyddog Cymorth Gweinyddol, a Manon Roberts, Swyddog Cymorth Technegol. Felly mae Horizon yn creu



swyddi'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol hefyd drwy sefydliadau rheoleiddio a sefydliadau cysylltiedig.

### **Trosolwg o'r Broses Asesu Dyluniadau Generig – Alan McGoff, Asiantaeth yr Amgylchedd**

- Rhoddodd Alan McGoff (AM), Asiantaeth yr Amgylchedd, gyflwyniad i roi'r newyddion diweddaraf i'r aelodau am y broses Asesu Dyluniadau Generig. Bu 2013 yn flwyddyn gynhyrchiol iawn, ac mae'n amser cyffrous iawn gyda chyfleoedd di-ri i'r dyfodol. Pwysleisiodd fod niwclear yn ymrwymiad tymor hir.
- Eglurodd AM y broses GDA, a'r broses o reoleiddio adeilad niwclear newydd. Y cwbl a wneir yng Ngham 1 y broses yw ystyried y dyluniad ar sail generig. Bydd ystyriaethau penodol i'r safle'n cael eu hychwanegu yn ystod Cam 2.
- Dyma amcanion GDA:
  - **Ymgysylltu'n gynnar** – sicrhau'r dylanwad mwyaf posib – y cynharaf y byddwch chi'n ymgysylltu, y mwyaf o ddylanwad fydd gennych.
  - **Nodi a datrys problemau pwysig cyn adeiladu** – lleihau risgiau o ran amser a chostau. Mae rhai o'r problemau a welwyd mewn dyluniadau eraill yn bodoli oherwydd bod y gwaith adeiladu wedi dechrau cyn bod lefel y dyluniadau wedi datblygu'n llawn.
  - **Integreiddio Diogelwch, Sicrwydd, yr Amgylchedd.**
  - **Symleiddio'r cam penodol i'r safle a chysoni safleoedd** – mae gwaith ymlaen llaw yn symleiddio'r broses yn ddiweddarach.
  - **Rhaglen drwyddedu yn unol â phenderfyniadau buddsoddi** – galluogi yw rôl rheoleiddiwr, nid rhwystro.
  - **Bod yn agored a chynnwys y cyhoedd, gan ennyn ffydd y cyhoedd** – tybiwyd erioed bod hanes o gyfrinachedd yn y diwydiant niwclear, ac mae angen ennyn ffydd y cyhoedd drwy fod yn agored.
  - **Rheoleiddwyr yn cydweithio** – mae GDA yn adnodd sy'n creu disgwyliadau cliriach ac yn cynnig cysondeb.
- Mae arbenigwyr pwnc y tîm asesu – arweinwyr byd-eang yn eu maes – a thimau asesu Asiantaeth yr Amgylchedd a'r ONR yn gweithio gyda'i gilydd ac yn cefnogi ei gilydd. Mae gan y timau gontractwyr cymorth technegol hefyd sy'n gweithio iddyn nhw yn ôl yr angen. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwneud llawer â'r gwaith asesu – mae Iwan Williams yn aelod o'r tîm.
- Mae proses systematig ar gyfer nodi problemau y mae angen i'r ymgeisydd eu datrys:
  - **Mater Rheoleiddio** – pryder sylweddol
  - **Sylw Rheoleiddio** – pryder posib
  - **Ymholiad Rheoleiddio** – cadarnhau dealltwriaeth

Mae dialog parhaus o 'sylwadau' ac ymatebion rhwng y gwerthwr ac Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd yn helpu i lywio'r broses.

- Mae GDA yn gosod safonau uchel o ran bod yn agored, gan ei bod yn hollbwysig sicrhau ffydd y cyhoedd.
- Cychwynwyd asesiadau GDA 1 (dau ddyluniad UK EPR) yn 2007, ac erbyn 2011 roedd y pedwar cam asesu wedi'u cwblhau. Cafwyd chwe mis o oedi yn sgil y digwyddiad yn Fukushima, a oedd yn rhoi amser i ystyried yn llawn y gwersi y gellid eu dysgu.
- Nid cymharu adweithyddion yw pwrpas y broses. Mae'n ystyried pob dyluniad unigol yn ôl ei haeddiant ei hun. Mae'r dylanwad cynnar yn golygu bod modd cynnwys yr addasiadau angenrheidiol ymhell cyn y gwaith adeiladu.
- Mae llawer o wersi wedi cael eu dysgu yn ystod GDA 1, o ran yr hyn oedd yn gweithio'n dda a beth y byddai modd ei wella. Er enghraifft, cafodd cyfathrebu ei enwi fel un mater allweddol. Mae angen i'r iaith fod yn gliriach. Mae'n bwysig bod yn glir wrth ddweud 'ie' a 'na', yn enwedig wrth ddelio â chydweithwyr sy'n siarad ieithoedd gwahanol. Yn yr un modd, mae angen cydnabod y gwahaniaethau bach o ran diwylliant busnes rhyngwladol.
- Ni ellir rhuthro'r broses GDA. Mae'n well bod pobl yn cyflawni gwaith o ansawdd uchel, ac yn cael yr amser y mae ei angen arnyn nhw i wneud hynny. Byddai gostwng ansawdd y deunyddiau / ymatebion a roddir yn arwain at fwy o oedi yn y pen draw.
- Mae'r broses GDA yn rhaglen annibynnol ond diwydiant sy'n ei hariannu yn y pen draw, nid trethdalwyr / llywodraeth y DU.

### **Holi ac Ateb**

- Diolchodd CT i bawb am eu cyflwyniadau llawn gwybodaeth, a dywedodd fod gan Horizon berthynas dda ag Asiantaeth yr Amgylchedd / ONR.
- Holodd JG am effeithiau'r prosiect ar wasanaethau cyhoeddus. Byddai'r nifer fawr o weithwyr y byddai eu hangen yn ystod y broses adeiladu yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau cyhoeddus e.e. ynni, ysgolion, iechyd, rhwydweithiau carthffosiaeth ac ati. Oes gan Horizon gynlluniau i wneud cyfraniad ariannol at wasanaethau cyhoeddus?
  - Cadarnhaodd CT y byddai hyn yn cael ei gynnwys yn y broses gynllunio fel arfer, gan ddefnyddio cytundeb Adran 106. Mae Horizon wedi bod yn edrych ar yr elfen hon ers cryn amser. Er enghraifft, mae gan aelodau o dîm Horizon raglen sefydledig o gyfarfodydd rheolaidd â'r gwasanaethau brys i drafod effaith y prosiect ar eu gwaith.

### **Unrhyw fater arall a dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf**

Diolchodd DE i bawb am fod yn bresennol.

Dyweddodd Richard Foxhall (RF) wrth yr aelodau y byddai cymhorthfa agored, fel rhan o raglen barhaus ymgysylltu â'r cyhoedd Horizon, yn cael ei chynnal yn Neuadd Bentref Cemaes ar 20<sup>fed</sup> Ionawr 2014 rhwng 1pm a 7pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.05pm.